# Proses delio â chwynion a chynnal ymchwiliadau: cynlluniau iaith

Ar ôl derbyn cwyn am fethiant honedig i gydymffurfio â chynllun iaith Gymraeg, dyma fydd y Comisiynydd yn ei wneud:




* Mae cwynion dilys wedi eu cyflwyno'n ysgrifenedig (oni bai fod amgylchiadau personol yn rhwystro hynny), wedi eu cyflwyno o fewn 12 mis i'r achwynydd ddod yn ymwybodol o'r mater, wedi eu cyflwyno at sylw'r sefydliad yn gyntaf, a bod y sefydliad wedi cael cyfle rhesymol i ymateb. Os nad yw'r gŵyn yn ddilys, bydd y Comisiynydd yn esbonio sut i wneud cwyn ddilys.

## Cynnal ymchwiliadau

Gall y Comisiynydd benderfynu ymchwilio naill ai mewn ymateb i gŵyn, neu oherwydd amheuaeth arall o fethiant i gydymffurfio â chynllun iaith Gymraeg (er enghraifft yn sgil gwybodaeth gan y cyhoedd, yn y cyfryngau, neu wybodaeth a ddarperir gan sefydliad). Wrth gynnal ymchwiliad, dyma fydd y Comisiynydd yn ei wneud:

- Gofyn i'r sefydliad am dystiolaeth
- Dadansoddi'r dystiolaeth a chasglu a yw'r sefydliad wedi methu â chydymffurfio â'i gynllun iaith Gymraeg ai peidio
- Llunio adroddiad drafft ar ganfyddiadau'r ymchwiliad, gan gynnwys unrhyw argymhellion, a rhoi cyfle i'r sefydliad wirio ffeithiau'r adroddiad
- Cyhoeddi'r adroddiad terfynol ar ei wefan ac anfon copi at y sefydliad a'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg.